Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Y System Gyllid

29 Mawrth 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Chwefror, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

*Could you please provide support to the following freedom of information questions?*

*Expenses:*

1. *What finance system do you use?*
2. *What system do you use to manage and process your staff's expenses?*
3. *What is the expense submission & reimbursement process?*
4. *What is the current approval workflow for expense claims?*
5. *How long does it take to process one expense claim?*
6. *What is the current period of reimbursement (from submission) for staff expenses?*
7. *How many expense claims were made during your last financial year? And what was total value of expense claimed?*
8. *Can your staff submit expenses remotely?*
9. *Are staff able to submit claims on their mobile device via a dedicated application?*
10. *If you are allowed, how are you claiming VAT back on expense claims?*
11. *What percentage of expense claims are audited?*
12. *How many full-time-employees (FTEs) do you have processing expense claims?*
13. *Which department oversees / owns the expense processes/workflows?*
14. *Who is the named contact within the organisation who owns the expense process?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

*Invoices:*

1. *What system do you use for managing/processing invoices?*
2. *What is your current invoice process for handling supplier invoices, from receipt to when it is posted in the ERP/finance system and ready for payment?*
3. *How many invoices were processed during your last financial year?*
4. *How many FTEs (full time employees) do you have in your accounts payable team who process invoices?*
5. *What percentage of invoices were paid late during your last financial year?*
6. *What is the approval workflow for Invoices?*
7. *Who is the named contact within the organisation that decides which systems are upgraded each year?*
8. *Do you use Optical Character Recognition (OCR) to scan invoices?*
9. *Do you currently have a PO system or a non-PO system? If you use both types – what is the percentage of PO invoices vs. non-PO invoices?*
10. *Are you claiming VAT on invoices? If so, how are you doing this?*

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

Fel y nodwch yn eich e-bost eglurhaol, rydych yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â staff Comisiwn y Senedd, Aelodau o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau.

Tîm y Gwasanaethau Ariannol sydd wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud â staff y Comisiwn a'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau sydd wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud ag Aelodau o'r Senedd a'u staff.

| | **Staff y Comisiwn** | **Aelodau o'r Senedd a'u staff** |
|---|---|---|
| ***Treuliau*** | | |
| 1. *Pa system gyllid ydych chi'n ei defnyddio?* | Business Central | Business Central |
| 2. *Pa system ydych chi'n ei defnyddio i reoli a phrosesu treuliau'ch staff?* | Business Central a Zellis | Business Central |

| | | Staff y Comisiwn | Aelodau o'r Senedd a'u staff |
|---|---|---|---|
| 3. | *Beth yw'r broses ar gyfer hawlio ac ad-dalu treuliau?* | Yn achos costau teithio a chynhaliaeth, bydd aelodau o staff sy'n eu hawlio'n llenwi ffurflen electronig, yn darparu derbynebau ac, ar ôl i'w rheolwr awdurdodi'r ffurflen, bydd yn cael ei hanfon ymlaen i adran y Gyflogres a fydd yn prosesu'r hawliad. Telir hawliadau trethadwy drwy'r gyflogres, a bydd hawliadau eraill yn cael eu hanfon at y tîm Cyllid a fydd yn talu'r hawliadau ar un o'r ddau ddyddiad talu wythnosol. Yn achos treuliau eraill i'w had-dalu, caiff ffurflen 'taliad â llaw' ei llenwi a bydd deiliad y gyllideb yn ei hawdurdodi cyn ei hanfon at y tîm Cyllid i drefnu'r taliad. | Bydd yr Aelod (neu staff ag awdurdod dirprwyedig) yn hawlio ad-daliad gan anfon dogfennau ategol at dîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Bydd y tîm yn adolygu'r hawliad ac yn prosesu'r taliad ar ran yr Aelodau |
| 4. | *Beth yw'r llif gwaith presennol ar gyfer cymeradwyo hawliadau am dreuliau?* | Gweler ein hymateb i gwestiwn 6. | Rhaid i bob hawliad gael ei awdurdodi gan AS, yn achos eu hawliadau eu hunain (neu hawliadau eu staff cymorth dirprwyedig). Yn achos hawliadau gan staff cymorth yr Aelodau, bydd yr AS yn awdurdodi hawliadau gan staff cymorth dirprwyedig, a bydd staff cymorth dirprwyedig yn awdurdodi hawliadau gan weddill y staff cymorth. |

| | | Staff y Comisiwn | Aelodau o’r Senedd a’u staff |
|---|---|---|---|
| 5. | *Faint o amser mae'n ei gymryd i brosesu un hawliad am dreuliau?* | Bydd hyn yn dibynnu ar y cyflogai/rheolwr awdurdodi a pha mor hir y bydd yn ei gymryd iddynt anfon yr hawliad at y tîm Cyllid. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, caiff ei ychwanegu at un o ddau ddyddiad talu wythnosol | Nod y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yw talu hawliadau cywir cyn pen deg diwrnod gwaith |
| 6. | *Beth yw’r cyfnod presennol ar gyfer ad-dalu treuliau (o’r adeg y cânt eu cyflwyno)?* | Mae gan y Comisiwn ddau ddyddiad talu bob wythnos. Pan fydd yr adran Gyllid yn cael yr hawliad, bydd yn cael ei gynnwys yn y taliad nesaf y gellir ei wneud. Y targed yw talu anfonebau cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law. | Nod y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yw talu hawliadau cywir cyn pen deg diwrnod gwaith |
| 7. | *Faint o hawliadau am dreuliau a wnaed yn ystod eich blwyddyn ariannol ddiwethaf? Ac, at ei gilydd, beth oedd gwerth y treuliau a gafodd eu hawlio?* | 196 o drafodion.<br><br>Gwerth yr holl dreuliau a gafodd eu hawlio oedd £13,000 at ei gilydd. | Cyhoeddir y wybodaeth hon yng **nghronfa ddata lwfansau’r Aelodau**.<br><br>Rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o gyfarwyddiadau arnoch i ddod o hyd i’r wybodaeath hon. |
| 8. | *A yw’ch staff yn gallu cyflwyno treuliau o bell?* | Ydynt | Ydynt |
| 9. | *A yw staff yn gallu cyflwyno hawliadau ar eu dyfais symudol trwy raglen bwrpasol?* | Nac ydynt | Nac ydynt |
| 10. | *Os caniateir i chi wneud hynny, sut ydych chi'n* | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | Staff y Comisiwn | Aelodau o'r Senedd a'u staff |
|---|---|---|
| *hawlio TAW yn ôl ar eich treuliau?* | | |
| 11. *Pa ganran o'r hawliadau am dreuliau sy'n cael eu harchwilio?* | Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais. | Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, cafodd sampl ar hap o 34 o drafodion eu harchwilio'n fanwl. |
| 12. *Faint o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd gennych chi i brosesu hawliadau am dreuliau?* | Nid oes yr un gweithiwr amser llawn yn ymdrin yn benodol â phrosesu hawliadau am dreuliau. Mae'r Tîm Cyllid yn cynnwys naw o bobl, pob un yn cyflawni amrywiaeth o rolau – taliadau, rheolaeth ariannol a chyfrifon. | Mae gan y tîm sy'n delio â hawliadau a lwfansau Aelodau o'r Senedd chwe aelod o staff amser llawn. |
| 13. *Pa adran sy'n goruchwylio / yn atebol am y prosesau / llif gwaith yn ymwneud â threuliau?* | Adnoddau Dynol | Cymorth Busnes i'r Aelodau |
| 14. *Pwy yw'r cyswllt penodol yn y sefydliad sy'n atebol am y broses dreuliau'n gyffredinol?* | Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am y polisi sy'n llywodraethu'r broses o ad-dalu treuliau; Manon Antoniazzi, fel y Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr | **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** sy'n pennu'r lwfansau a'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau sy'n eu gweinyddu. |
| ***Anfonebau:*** | | |
| *1. Pa system ydych chi'n ei defnyddio i reoli / prosesu anfonebau?* | Business Central | Business Central |
| *2. Beth yw'r broses bresennol ar gyfer ymdrin ag anfonebau cyflenwyr, o'r adeg y byddant yn cyrraedd* | - Bydd y cyflenwr yn anfon anfoneb drwy'r e-bost i fewnflwch anfonebau pwrpasol | - Bydd yr Aelodau'n cyflwyno'r anfoneb i'w thalu ynghyd â'r gwaith papur perthnasol. |

| | **Staff y Comisiwn** | **Aelodau o'r Senedd a'u staff** |
|---|---|---|
| *tan y cânt eu rhoi yn y system ERP/cyllid, yn barod i'w talu?* | - Bydd yr anfoneb yn cael ei sganio i system Business Central (bydd anfonebau copi caled yn cael eu sganio â llaw i Business Central)<br>- Os oes rhif archeb perthnasol ac os yw gwerth yr anfoneb yn cyd-fynd â'r rhif hwnnw, a'r archeb brynu wedi'i chynnwys yn y system, bydd yr anfoneb yn cael ei dalu ar y dyddiad talu nesaf sydd ar gael.<br>- Os oes rhif archeb perthnasol nad yw'n cyd-fynd â gwerth yr anfoneb, cysylltir â'r adran a greodd yr archeb brynu i ofyn a all gadarnhau y dylid talu'r anfoneb.<br>- Os nad oes rhif archeb, cysylltir â'r adran a ddylai fod wedi creu'r archeb brynu i ofyn a all wneud hynny. Ar ôl sicrhau bod yr archeb brynu'n cyd-fynd â gwerth yr anfoneb, caiff ei dalu. | - Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'n gwirio manylion y cyflenwr. Bydd yn holi'r cyflenwr am unrhyw anghysondeb<br>- Bydd cyflenwyr newydd yn cael 'ffurflen sefydlu cyflenwr' a gaiff ei dychwelyd i fewnflwch Cyllid a bydd y gwiriadau perthnasol yn cael eu cynnal<br>- Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'n prosesu'r hawliad<br>- Bydd Cyllid yn rhyddhau arian i ad-dalu'r hawliadau sydd wedi'u prosesu |
| 3. *Faint o anfonebau a gafodd eu prosesu yn ystod eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?* | 2065 o daliadau ar ddyddiadau talu (Comisiwn)<br><br>2065 o daliadau ar ddyddiadau talu (Aelodau) | Mae gwahaniaeth rhwng anfonebau a broseswyd a hawliadau a broseswyd. Nid oes anfoneb ar gyfer pob hawliad, ee hawlio am filltiroedd a deithiwyd |

| | Staff y Comisiwn | Aelodau o'r Senedd a'u staff |
|---|---|---|
| 4. *Faint o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd gennych chi yn y tîm cyfrifon taladwy sy'n prosesu anfonebau?* | 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn | 6 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn |
| 5. *Pa ganran o anfonebau gafodd eu talu'n hwyr yn ystod eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?* | Ein nod yw talu pob anfoneb cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law. Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed hwn yn achos 2% o'r taliadau. | Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais. |
| 6. *Beth yw'r llif gwaith presennol ar gyfer cymeradwyo anfonebau?* | Gweler ein hymateb i gwestiwn 2 uchod. | Cyflwynir anfonebau fel hawliadau gan Aelodau o'r Senedd (neu eu staff dirprwyedig) |
| 7. *Pwy yw'r cyswllt penodol yn y sefydliad sy'n penderfynu pa systemau sy'n cael eu huwchraddio bob blwyddyn?* | Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais.<br>Caiff contractau eu hail-dendro ar ddiwedd cyfnod y contract fel y nodir yn ein **hamserlen ar gyfer contractau**. | Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais.<br>Caiff contractau eu hail-dendro ar ddiwedd cyfnod y contract fel y nodir yn ein **hamserlen ar gyfer contractau**. |
| 8. *A ydych chi'n defnyddio system Adnabod Nodau Gweledol (OCR) i sganio anfonebau?* | Ydynt | Nac ydynt |
| 9. *Ar hyn o bryd, a ydych chi'n defnyddio system seiliedig ar archebion prynu neu system nad yw'n seiliedig ar archebion prynu? Os ydych chi'n defnyddio'r ddau fath o system –* | System archeb brynu Mae angen archeb brynu ar gyfer pob anfoneb | Cyflwynir hawliadau Aelodau drwy system nad yw'n seiliedig ar archeb prynu |

| | Staff y Comisiwn | Aelodau o'r Senedd a'u staff |
|---|---|---|
| *beth yw canran yr anfonebau sydd ag archebu brynu gysylltiedig o'i chymharu â chanran yr anfonebau heb archeb brynu gysylltiedig?* | | |
| *10. A ydych chi'n hawlio TAW ar anfonebau? Os felly, sut rydych chi'n gwneud hynny?* | Mae'r Senedd yn gallu adennill TAW ar anfonebau penodol os yw'n gymwys i wneud hynny o dan y Cyfarwyddyd Contractio Allan. Bydd TAW a gaiff ei hadennill yn rhan o'r ffurflen TAW | Amherthnasol |

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN